# NWRC(2)02-07(p2(b))

# PWYLLGOR RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

**Dyddiad: 23 Mawrth 2007**
**Amser: 10.00 - 12.30**
**Lleoliad: Stiwdio Barcud Derwen, Ystad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD.**

**Teitl: Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru: Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

GWASANAETH IECHYD MEDDWL ac ANABLEDD DYSGU

## GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL

### Timau Iechyd Meddwl Cymuned

Ffurfiwyd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl o gwmpas timau iechyd meddwl cymuned llawn adnoddau. Datblygwyd pedwar tîm yn yr ardal ers y 1980'au hwyr. Maent i gyd yn aml-ddisgyblaethol ac aml-asiantaethol a'u nod ydy darparu gwasanaeth unigol a hyblyg i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae'r timau'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i'r rhai hynny â phroblemau iechyd meddwl difrifol ac maent yn darparu dewis eang o weithgareddau, gan gynnwys rhai un- i- un a rhai grwp. Dechreuwyd Gwasanaeth Cynghori mewn Gofal Cychwynnol yn Ionawr 2002 ac mae 37 practis meddygon teulu'n cymryd rhan ynddo.

### Uned Hergest, Bangor

Agorwyd yr Uned yn 1993 a hon ydy'r brif uned lem i gleifion mewnol (oedolion). Gwelir y cyfleusterau fel atodiad i'r timau iechyd meddwl cymuned. Mae 3 ward derbyn achosion llym 18-gwely ac uned gofal dwys 4-gwely (lle mae pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl mwy difrifol yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n rhoi lefel uwch o ddiogelwch na'r wardiau achosion llym). Mae Gwasanaeth Cyswllt Seiciatrig yn yr uned sy'n asesu cleifion a gafodd eu derbyn i'r ysbyty ar ôl iddynt niweidio eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn wedi gwella'r cysylltiadau rhwng y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac ysbytai cyffredinol o ran asesu cleifion â phroblemau iechyd meddwl hysbys sydd mewn gwelyau ysbytai cyffredinol neu sydd mewn unedau damweiniau. Mae Uned Hergest hefyd yn cefnogi adran cleifion allanol lle gwelir pobl gan wahanol weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â gofalu amdanynt. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o glinigau cleifion allanol yn cael eu sefydlu yn y gymuned erbyn hyn.

## Unedau Gwelyau Cefnogi

Er bod Uned Hergest yn gam mawr ymlaen o ran darparu gwasanaethau lleol, cydnabuwyd, mewn ardal mor fawr, bod gofyn cael darpariaeth fwy lleol a fyddai'n hawdd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr ei defnyddio ac a fyddai'n cyflenwi'r gwasanaethau cymuned. Felly, datblygwyd y cysyniad o unedau gwelyau cefnogi lleol. Datblygodd y ddwy uned gyfredol (Coedlys yn Llangefni a Dryll y Car yn Y Bermo) mewn ffyrdd gwahanol , yn dibynnu ar y gwahanol anghenion a ddynodir, eu lleoliad a'r lefelau staffio. Fodd bynnag, yr un yw eu nod:- darparu gofal seibiant tymor byr i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, ymateb mewn argyfwng, adsefydlu tymor hir, a gofal dilynol yn y gymuned, gan gynnwys darpariaeth galw heibio a gofal dydd. Fel dewis yn lle trydedd uned gwelyau cefnogi, sefydlwyd gwasanaeth ymyriad yn Nwyfor/Gogledd Meirionnydd ar ffurf tîm aml-ddisgyblaethol sy'n gweithio gyda chleientiaid yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa.

## Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau

Darperir y Gwasanaeth Cyffuriau sy'n aml-ddisgyblaethol ar y cyd ag asiantaethau gwirfoddol, ac mae'n cynnwys dadwenwyno yn y cartref, adsefydlu yn y gymuned, dadwenwyno i gleifion mewnol ac adsefydlu preswyl. Yn gyffredinol mae'r gwasanaeth, sy'n gweithredu system cyfeirio agored, yn anelu at ddarparu gwybodaeth a chyngor, asesiad a chefnogaeth yn y gymuned. Mae yna weithwyr penodol sy'n gwasanaethu pob sector yn ardal yr Ymddiriedolaeth a gweithredir cyfleusterau galw-heibio o amryw o safleoedd.

Darperir Gwasanaethau Alcohol ar y cyd â gwasanaethau gwirfoddol ac mae ganddynt yr un amcanion cyffredinol â'r gwasanaeth cyffuriau. Mae modd cael mynediad at y gwasanaeth trwy bob tîm iechyd meddwl cymuned a'i nyrs alcohol seiciatreg cymuned sy'n goruchwylio pob cyfeiriad. Os bydd elfen salwch meddwl i'r achos, gweithredir ar y cyd.

## Gwasanaeth Seiciatrig Fforensig Gogledd Cymru

Mae tîm aml-ddisgyblaethol o staff meddygol, seicoleg, nyrsio a gwaith cymdeithasol yn darparu gwasanaethau clinigol i droseddwyr ag anhwylder meddwl yng Ngogledd Cymru. Asesir eu

hanghenion hwy fel rhai sy'n gofyn am sgiliau arbenigol a gwybodaeth a thriniaeth ddwys yn y gymuned neu mewn amodau diogelwch canolig sydd y tu allan i ystod a maes gwasanaethau iechyd meddwl generig. Agorwyd uned diogelwch canolig bwrpasol 25-gwely, Ty Llywelyn, ar safle Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan yn Hydref 1998. Darperir gwasanaethau cleifion allanol ac ôl-ofal hefyd, wedi eu hintegreiddio gyda gwasanaethau iechyd meddwl lleol. Ceir cyfeiriadau o wahanol ffynonellau gan gynnwys y gwasanaethau iechyd meddwl generig, y system cyfiawnder troseddol, meddygon teulu, gwasanaeth carchar, ysbytai arbennig a gwasanaethau cymdeithasol.

## Gofal Parhaol i'r rhai hynny â Phroblemau Iechyd Meddwl Parhaol Difrifol

Agorwyd uned gofal parhaol 8-gwely yn 1994 ar safle Bryn y Neuadd yn Llanfairfechan. Mae'r gwasanaeth yn ceisio defnyddio gweithgareddau a gwasanaethau cyffredin y tu allan i'r uned rhag i bobl fynd yn fwy dibynnol ar y sefydliad.

## Gwasanaethau i'r Henoed Sâl eu Meddwl

Cynigir amrywiaeth o wasanaethau seibiant, asesu a gofal parhaol lleol yng nghartrefi pobl ac mewn lleoedd gofal dydd a phreswyl. Ar hyn o bryd, tynnir sylw at y gwahaniaeth rhwng pobl hyn sy'n dioddef o salwch meddwl swyddogaethol a'r rhai hynny sy'n dioddef o salwch organig (dementia). Mae'r grwp cyntaf yn rhan o'r Gwasanaeth Salwch Meddwl Oedolion tra bo'r olaf yn rhan o'r Gwasanaeth Henoed Eiddil eu Meddwl (EMI)/Dementia. Nid yw'r gwasanaeth EMI/Dementia, yn wahanol i'r gwasanaeth Salwch Meddwl Oedolion, yn gweithredu trwy'r timau iechyd meddwl cymuned integredig, ond mae'r Nyrsys Seiciatreg Cymuned EMI yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol lleol.

## Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Mae prif ganolfan y gwasanaeth ym Mangor ond cynhelir clinigau lleol o gwmpas yr ardal. Mae'r gwasanaeth yn darparu asesiad, triniaeth a chyngor i blant a'u teuluoedd ynghylch problemau ymddygiad, emosiwn neu iechyd meddwl. Ar y staff mae seiciatryddion, seicolegwyr clinigol, gweithwyr cymdeithasol cyfarwyddyd plant, nyrsys therapyddion plant a gweithwyr gofal cychwynnol (sy'n cynnal gwasanaeth gofal cychwynnol peilot). Yn 1996 sefydlwyd Canolfan Anhwylder Ymddygiad Plant a Theuluoedd yn Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan, fel rhan o'r gwasanaeth. Y cyntaf o'i fath yng Nghymru, mae'n golygu y gall staff a hyfforddwyd yn y gwaith arsyllu plant aflonyddgar iawn a'u teuluoedd trwy ddefnyddio offer gwyliadwriaeth soffistigedig, ond mewn lleoliad domestig nodweddiadol.

## GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU

Mae canolfan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan, lle ar hyn o bryd mae chwe villa preswyl yn darparu gofal tymor hir i oedolion ag anableddau dysgu. Mae gwasanaeth bywiog ac amrywiol i'r preswylwyr a rhaglenni sydd wedi eu paratoi'n benodol at anghenion yr unigolion. Mae dewis amrywiol o weithgareddau ar gael gan gynnwys cerdded mynyddoedd, canwio, dringo, cerddoriaeth, celf, gwaith coed, drama, sesiynau cyfathrebu, golff, garddio, sesiynau synhwyraidd a choginio. Cafodd y Rhaglen Ailsefydlu preswylwyr o'r ysbyty, a

ddaeth i ben yn 1995, ei hailddechrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001. O fewn y gwasanaeth, mae pedwar tîm iechyd cymuned amlddisgyblaethol sy’n gweithio’n agos gyda’r Seiciatryddion Ymgynghorol yn Ysbyty Bryn y Neuadd; Tîm Cefnogi Ychwanegol sy’n gweithio gydag oedolion a phlant ag Anableddau Dysgu ac Ymddygiad Heriol; a Gwasanaeth Ymyriad Brys sy’n rhoi cefnogaeth i gleientiaid a’u gofalwyr yn eu hamgylchedd cyffredin ar adegau o argyfwng. Mae llety brys tymor byr mewn ty preswyl tri gwely ar gael hefyd tra bo’r argyfwng yn cael ei ddatrys.

MH/LDS.taflen Tachwedd 2006.